Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar
# Meithrinfa Gartholwg
# Campws Cymunedol Gartholwg
# Pentre`r Eglwys
# Pontypridd
# CF38 1RQ

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Meithrinfa Gartholwg ar gampws cymunedol Gartholwg, Pentre`r Eglwys (Rhondda Cynon Taf). Ar y campws mae`r feithrinfa a`r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ac mae canolfan ddysgu yn y llyfrgell gymunedol. Mae`r ardal yn un nodweddiadol o fewn y cymoedd.

Agorwyd y Feithrinfa ryw chwe mlynedd yn ôl a chaiff ei rheoli gan Fudiad Ysgolion Meithrin fel mudiad dielw. Mae`r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn goruchwylio`r agweddau ariannol ac mae`r personau Cofrestredig sy`n goruchwylio`r Feithrinfa yn swyddogion o`r Mudiad Meithrin.

Ar hyn o bryd mae rheolwraig a dirprwy rheolwraig y Feithrinfa ar gyfnod mamolaeth. Mae hyn, yn ogystal â materion eraill, gan gynnwys salwch tymor hir, wedi arwain at newidiadau mawr o ran staffio o fewn y Feithrinfa yn ddiweddar. Mae`r Mudiad Meithrin wedi secondio rheolwraig brofiadol dros dro i oruchwylio gwaith y Feithrinfa am 3 diwrnod yr wythnos ac wedi apwyntio yn fewnol ar gyfer un o`r staff am 2 ddiwrnod yr wythnos.

I fynd at y Feithrinfa rhaid mynd i lawr ychydig o risiau neu ramp ar lethr. Mae`r drws allanol ar glo bob amser a rhaid i bob un gael ei adael i mewn gan aelod o staff. Mae`r drws hwn yn arwain at goridor gyda hysbysfwrdd sy`n rhoi ychydig o wybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr. Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn arwyddo eu plant i mewn i`r Feithrinfa wrth iddynt gyrraedd. Mae`r Feithrinfa wedi ei chynllunio`n dda gydag ystafelloedd ar gyfer arweinydd y Feithrinfa, ystafell ddyblygu, ystafell staff, cegin ac ystafelloedd dysgu eraill. Mae`r plant sy`n 2 a 3 oed yn gweithio gyda`i gilydd ac yn cyfarfod mewn ystafell ddysgu fawr sy`n olau a chynnes. Gerllaw`r ystafell hon mae ystafell fach gyfforddus ar gyfer amser stori. Mae`r brif ystafell ddysgu wedi`i gosod gydag amrywiaeth o ardaloedd o weithgareddau ac yn agor i`r tu allan. Ochr yn ochr â`r ystafell hon mae ystafell arall sy`n cael ei defnyddio ar gyfer bwyta a gweithgareddau eraill, fel rhai sy`n cynnwys bwyd.

Mae`r ardal allanol yn fawr ac yn darparu nifer o ardaloedd o weithgareddau sydd wedi eu cynllunio`n dda ar gyfer y plant. Mae`r rhain yn cynnwys ardal ar gyfer tyfu planhigion ac arsylwi ar greaduriad bach. Mae yna sied bren lle gall y plant chwarae, ac ardaloedd chwarae eraill. Caiff y plant fynediad hefyd i ardal chwarae meddal ble maen nhw`n gallu defnyddio teganau mawr symudol. Drwyddi draw, mae`r ardal yn yr awyr agored yn darparu man chwarae gwerthfawr ar gyfer y plant, er nad oes unrhyw ardal dan do.

Daw`r plant i`r Feithrinfa yn dilyn eu penblwydd yn dair oed ac yn symud i`r cam nesaf yn eu haddysg fel arfer i`r ysgol gynradd gerllaw yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblywdd yn 4 oed. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn byw yn y ardal leol, er bod rhai yn dod o ymhellach i ffwrdd er mwyn elwa o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae`r Feithrinfa yn dweud bod y plant yn dod o gartrefi nad ydynt yn arbennig o freintiedig nac o dan anfantais ecocnomaidd-gymdeithasol a daw traean o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Daw`r rhan fwyaf o`r lleill o gartrefi lle mae un rhiant/gofalwr yn siarad

Cymraeg.  Tra bod y Feithrinfa yn ddigon bodlon i`w derbyn, nid oes unrhyw blant ar hyn o bryd sy`n dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig na phlant sydd wedi eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae`r Feithrinfa ar agor o 7.30 y.b. tan 6.00 y.p. ac yn cynnig 3 sesiwn yn ddyddiol. Mae`r rhain yn cynnwys drwy`r dydd (7.30 y.b. tan 6 y.p.), sesiwn bore 7.30 y.b. tan 1 y.p a sesiwn prynhawn (1 y.p. – 6 y.p.). Mae`r Feithrinfa ar agor drwy`r flwyddyn ar wahan i wyliau banc.

Mae`r Feithrinfa wedi ei chofrestru gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer i fyny at 40 o blant.  Ar hyn o bryd, mae 13 o blant 3 oed ar y gofrestr ac ariennir 7 ohonynt.

Cafodd y Cylch ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC yn Rhagfyr 2011 a chyhoeddwyd yr adroddiad yn Ionawr 2012.  Nid oedd unrhyw argymhellion penodol.  Nid yw`r Feithrinfa wedi cael arolygiad gan Estyn o`r blaen.

.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

**Perfformiad presennol**

Nodweddion da

- Cyflawniad a chynnydd y plant yn eu dysgu, yn enwedig eu medrau iaith a mathemategol.
- Agweddau ac ymddygiad y plant a`u diddordeb mewn dysgu.
- Darpariaeth ar gyfer sicrhau lles y plant.
- Mae`r staff yn fodelau rôl da ac yn defnyddio cwestiynu`n dda i ddatblygu medrau iaith y plant.
- Mae`r berthynas rhwng plant ac oedolion yn dda.
- Yr amgylchedd dysgu, yn enwedig yr ardaoloedd tu allan a`r effaith ar ddysgu`r plant.
- Cysylltiadau â`r ysgol gynradd sy`n hwyluso trosglwyddiad y plant.
- Y berthynas â`r rhieni a`u cefnogaeth o`r Feithrinfa.

Nodweddion digonol

- Mae`r cwricwlwm yn cynnwys profiadau da ar gyfer y plant ond nid yw`n canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygu dysgu`r plant yn gynyddol.
- Mae`r tasgau a`r gweithgareddau`n canolbwyntio`n annigonol ar anghenion y plant a`r camau nesaf yn eu dysgu.
- Defnydd o`r asesu i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

**Rhagolygon gwella**

Nodweddion da

- Agwedd yr ymarferydd arweiniol i newid a`i ffocws ar roi`r ddarpariaeth orau i`r plant.

Nodweddion digonol

- Nid yw`r hunanarfarnu a gwybodaeth yr arweinydd o berfformiad y lleoliad wedi`u datblygu digon.

Nodweddion anfoddhaol

- Cynllunio datblygiad gan gynnwys blaenoriaethu agweddau i`w datblygu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i`r Feithrinfa:

A1 sicrhau bod yr arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad clir a strategol i`r Feithrinfa ac yn canolbwyntio ar gefnogi datblygiad staff.

A2 defnyddio gwybodaeth o`r hunanarfarnu i flaenoriaethu materion ar gyfer eu gwella a rhoi cynllun datblygu ar waith;

A3 defnyddio canlyniadau`r asesu i nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant fel bod tasgau yn gweddu`n dda â`u gallu â`u cyflawniad blaenorol;

A4 cynllunio`r cwricwlwm fel ei fod yn adeiladu`n systematig ar wybodaeth , dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cylch yn llunio cynllun sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob un o`r plant yn gwneud cynnydd realistig ymhob maes dysgu ac yn cyflawni`n dda. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn natblygiad eu medrau iaith a mathemateg. Mae pob un o`r plant yn cymryd rhan weithredol ac yn dangos diddordeb canmoladwy yn yr hyn maen nhw`n ei wneud.

Mae medrau llythrennedd y plant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu`n dda iawn. Mae bron pob un o`r plant yn deall cyfarwyddiadau a gorchmynion ac yn ymateb yn briodol gan ddangos eu dealltwiaeth o`r iaith. Mae llawer o`r plant yn fodlon sgwrsio yn yr iaith gan wneud yn siwr bod eraill yn eu deall. Maen nhw`n defnyddio`r iaith yn naturiol wrth chwarae gan fynegi eu hunain yn glir.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn mwynhau storïau gan gymryd rhan weithredol drwy ateb cwestiynau gyda brwdfrydedd. Maen nhw`n dilyn y stori, fel stori "Y Lindysyn Llwglyd Iawn" ac yn medru dilyniannu cyfnodau ym mywyd y lindysyn. Mae`r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ond nid oes gan leiafrif o blant fedrau trin llyfr da, fel sut i droi tudalennau`n drefnus. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dysgu creu marciau fel rhagflaenydd i ysgrifennu. Maen nhw`n deall rhai swyddogaethau ysgrifennu.

Mae gan bron pob un o`r plant fedrau rhif da. Maen nhw`n datblygu iaith fathemategol dda mewn cyd-destunau perthnasol fel "mawr" a "bach" wrth ddisgrifio trychfilod. Mae`r plant yn adnabod patrwm ac yn dilyniannu gwrthrychau, fel wrth chwarae â dominos gyda lluniau o anifeiliaid arnynt. Gweithgaredd dda a nodedig yw gweithgareddau`r siop yn defnyddio arian plastig i "brynu" ffrwythau. Mae hyn yn rhoi cyflwyniad sylfaenol da i`r plant o ddefnydd arian, adio a thynnu.

Mae llawer o`r plant yn defnyddio tiliau arian a ffonau symudol wrth chwarae. Mae`r plant yn gallu rheoli teganau sy`n gweithio gyda batri ac mae archwiliad o lyfrau gwaith y plant yn dangos eu bod yn creu lluniau syml ar y cyfrifiadur.

Drwyddi draw, mae`r plant yn datblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd y plant yn defnyddio chwyddwydr i arsylwi trychfilod, fel mwydod a chorynnod. Maen nhw`n mwynhau chwarae-rôl fel rhan o`u gweithgareddau tu allan. Mae pob un o`r plant yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol ar eu teganau symudol fel rhan o`u gweithgareddau tu allan. Roedd eu gwaith creadigol yn cynnwys gwaith a wnaethon nhw yn y cartref, fel eu collage tri-dimensiwn o`r "Lindysyn Llwglyd Iawn" gan ddefnyddio eitemau gwastraff o`r cartref, fel bocsys wyau, ffrrwythau wedi sychu a phapur lliw.

Adroddiad ar Meithrinfa Gartholwg
Mawrth 2012

**Lles: Da**

Mae pob un o`r plant yn ymateb yn dda i ffocws y Feithrinfa ar ddatblygu eu lles. Mae`r plant yn cyrraedd gyda synnwyr o ddisgwyl ymlaen i`r hyn sydd i ddod ac yn cymryd rhan yn weithredol ac yn gyflym yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Maen nhw`n dangos mwynhad mewn dysgu. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol a diddordeb yn y gwaith sy`n eu cynnal am gyfnodau ymestynnol o amser.

Mae ymddygiad yn dda gydag ychydig iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol, os o gwbl. Yn hytrach, maen nhw`n ystyriol ac yn dangos agweddau cwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion.

Mae dealltwriaeth y plant o arferion iach yn datblygu`n dda. Maen nhw`n ymwybodol bod rhai bwydydd yn cyfrannu at ddeit iach, ac maen nhw`n glanhau eu dannedd yn frwdfrydig. Mae ganddynt ddigon o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol egnïol. Mae`r plant yn gweithio gyda`i gilydd yn dda iawn ac yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau ynglyn â pha dasgau a gweithgareddau maent yn eu gwneud. Mwy na thebyg oherwydd y gymhareb uchel o oedolion i blant, caiff y plant llai o gyfleoedd i weithio`n annibynnol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae pob un o`r ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn y cynllunio. Mae`r staff yn gwybod beth yw diddordebau`r plant ac mae`r agwedd hyblyg at gynllunio yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ddiddorol ac mae hyn yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb pob plentyn. Mae`r cynllunio yn canolbwyntio ar y chwe maes dysgu fel y nodwyd yn athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau`r cwricwlwm yn canolbwyntio`n ddigonol ar adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Drwyddi draw, fodd bynnag, mae`r plant yn caffael ystod eang o fedrau ar draws pob maes dysgu ond nid yw`r cynllunio`n sicrhau dilyniant a pharhad yn y dysgu, ac nid yw`n canolbwyntio digon ar gyfateb tasgau â gallu a chyflawniad blaenorol plant. Serch hynny, mae`r cwricwlwm yn annog plant i ddod yn ddysgwyr hyderus ac i ddangos parch a goddefgarwch at ei gilydd.

Mae`r cwricwlwm yn cynnwys astudio pobloedd o wahanol gefndiroedd diwylliannol, fel wrth astudio a dathlu`r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae`r plant yn blasu bwyd Tsieineaidd, yn edrych ar ddillad Tsieineaidd ac yn tynnu llun arteffactau Tsieineaidd fel dreigiau.

Mae`r plant yn dangos medrau corfforol da, fel wrth ddefnyddio teganau mawr symudol, ac mae`u dealltwriaeth o`r byd wedi`i datblygu`n dda drwy astudio pethau byw.

Mae iaith Gymraeg a medrau cyfathrebu`r plant wedi`u datblygu`n dda drwy gael eu trochi yn yr iaith.  Nodwedd dda yw`r cylchlythyr i rieni sy`n nodi geiriau newydd sy`n cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a defnydd naturiol yr ymarferwyr o`r iaith.  Rhoddir blaenoriaeth i ddealltwriaeth o draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen.

Mae`r plant yn dysgu am gynaladwyedd drwy ail-gylchu, fel ail-gylchu papur a chartonau llaeth.

**Addysgu:  Da**

Mae`r holl blant yn cael eu cefnogi`n dda ac yn dangos ymglymiad gweithredol ymhob weithgaredd yn ddieithriad.  Mae`r ymarferwyr wrth law bob amser i herio`r plant, ac yn defnyddio cwestiynu`n dda i ddatblygu eu medrau meddwl.  Mae`r staff yn fodelau iaith da sy`n sicrhau bod y plant yn cael eu trochi yn yr iaith yn ystod eu hamser yn y Feithrinfa.  Ar y cyfan, mae`r staff yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen, ond does dim digon o gyfleoedd ar gael i`r plant weithio`n annibynnol ar wahan i`r gweithgareddau sy`n cael eu harwain neu eu cyfeirio gan oedolion.  Fodd bynnag, mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o`u plant; caiff ymddygiad ei reoli`n effeithiol gyda strategaethau ymddygiad positif a defnydd o ganmol.  Mae gan yr holl blant, pa beth bynnag yw eu cefndir neu allu, hawl gyfartal at bob agwedd o`r cwricwlwm.

Mae`r ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr.  Maen nhw`n cofnodi eu harsylwadau mewn llyfrau cofnod unigol i bob plentyn o dan y chwe maes dysgu.  Mae`r arsylwadau hefyd yn cyfeirio at ddeilliannau dysgu`r Cyfnod Sylfaen.  Mae`r cofnodion yn fanwl ac ar gael i rieni a gofalwyr eu gweld ar ddiwedd blwyddyn.  Pob dydd, mae rhieni yn cael crynodeb o`r themau mae eu plant wedi bod yn astudio.  Er bod y cofnodion hyn yn ddefnyddiol fel cofnod o gyflawniad plentyn, nid ydynt yn cael eu defnyddio`n ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol er mwyn bodloni gofynion plant fel bod tasgau yn cyfateb yn dda â gallu a chyflawniad blaenorol y plant.  Nid ydynt chwaith yn cael eu defnyddio i hysbysu rhieni o gynnydd eu plant neu o`r camau nesaf yn eu dysgu fel eu bod yn gwybod beth y gallant ei wneud i`w helpu i ddysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.  Mae`r gwaith a`r gweithgareddau yn yr amgylchedd tu allan yn rhoi cyfleoedd da iawn i`r plant ddatblygu synnwyr o ryfeddod am y byd o`u cwmpas.  Mae`r plant yn dangos diddordeb mawr wrth chwilio am drychfilod, a darganfod ble maen nhw`n byw a`u hamgylchiadau byw.

Mae`r Feithrinfa yn leoliad hapus a thawel sy`n meithrin parch at ei gilydd, gonestrwydd a thegwch yn llwyddiannus.  Mae ymddygiad y plant yn dda, ac yn aml yn dda iawn ac maen nhw`n deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir.  Mae llawer o blant yn cymryd cyfrifoldeb ac yn dangos blaengaredd,

fel wrth helpu`r staff, ac mae`r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio`n annog y plant i fod yn weithredol yn gorfforol ac i ddatblygu eu creadigrwydd.

Mae`r Feithrinfa`n adrodd bod gwasanaethau arbenigol ar gael os oes eu hangen, er nad oes un o`r plant angen cymorth ychwanegol ar hyn o bryd.

Yn y gorffennol, mae`r plant sydd wedi cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi cael mynediad llawn i bob maes dysgu ac mae`r rheini wedi cael eu cysylltu yn rheolaidd.  Yn ôl yr angen, mae`r plant yma wedi derbyn cymorth ychwanegol gan gynnwys cymorth gan asiantaethau allanol.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch plant. Mae`r staff sydd â chyfrifoldeb penodol ar gyfer diogelu plant wedi`u nodi ac mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol.  Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).  Mae`r Feithrinfa`n wyliadwrus drwy sicrhau bod plant yn gadael gyda phersonau a enwebwyd neu riant yn unig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy`n dangos ethos sy`n dda ac yn gadarnhaol. Mae`r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a`u parchu ac yn cael hawl gyfartal at bob agwedd o`r cwricwlwm.  Mae`r Feithrinfa yn datblygu agwedd oddefgar y plant yn llwyddiannus a`r canlyniad yw cymuned sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.  Nodwedd nodedig a da yw`r gymhareb oedolyn a phlentyn uchel sy`n golygu bod y plant yn cael eu cefnogi`n dda yn y gweithgareddau maen nhw`n eu dewis.  Drwyddi draw, mae`r ymarferwyr yn creu amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu.

Ar y cyfan, mae gan y Feithrinfa amrywiaeth dda o adnoddau sy`n cael eu gweddu`n dda i anghenion dysgu`r plant.  Mae`r ardaloedd tu allan yn enwedig yn darparu mannau diddorol ac ysgogol i`r plant i archwilio a datblygu eu gwybodaeth a`u dealltwriaeth o bethau byw.  Mae digon o deganau symudol ar gael a digon o le i`r plant ddatblygu eu medrau corfforol ac i fod yn brysur.

Drwyddi draw, mae`r adeiladau yn cael eu cynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae diffyg syniadau clir a strategol yn y Feithrinfa a diffyg ffocws pendant yn ei gwaith i gyfeirio at welliannau. Roedd yr arweinyddiaeth flaenorol wedi dechrau newid staff rhwng yr oedrannau gwahanol o blant ond nid oedd unrhyw gynllunio na gweithredu ar gyfer strategaethau hyfforddiant.

Mae`r Feithrinfa yn dibynnu`n fawr iawn ar ymrwymiad unigol arweinydd y dosbarth Meithrin sydd wedi arwain y staff arall, cynllunio`r cwricwlwm cyfredol a wedi gweithio`n galed i ddarparu`r plant â chyfleoedd dysgu cyffrous a gwerth chweil. Mae`r safonau presennol yn adlewyrchiad o ymroddiad arweinydd y dosbarth Meithrin sydd â chefnogaeth lawn ei staff. Fodd bynnag, er bod y plant yn derbyn gofal da ac yn cyflawni safonau da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd er enghraifft, does dim digon o bwyslais ar ddatblygu potensial pob plentyn a`u symud ymlaen i`r camau nesaf yn eu haddysg.

Nid oes strategaeth ar waith sy`n rhoi cyfeiriad clir i waith y Feithrinfa sy`n canolbwyntio ar wella dysgu a chynnal gwelliannau. Caiff yr ymarferwyr eu rheoli a`u cefnogi`n annigonol yn eu gwaith er mwyn sicrhau bod ffocws clir ar ddatblygu`r plant i`w llawn botensial.

Mae gwybodaeth yr arweinydd cyfredol o`r ffordd mae`r Feithrinfa`n gweithredu yn gyfyngedig, ac fel canlyniad mae`i dealltwriaeth o anghenion unigol y plant yn arwynebol.

Mae`r cysylltiadau â`r rhieni yn dda ar y cyfan a dywedodd rhieni, wrth drafod, eu bod yn fodlon â`r ddarpariaeth. Dywedon nhw bod staff y Feithrinfa ar gael bob amser i drafod materion sy`n codi.

Caiff y gweinyddu o ddydd i ddydd yn y Feithrinfa ei wneud yn effeithlon gan y staff dros dro. Caiff y Feithrinfa ei horuchwylio gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr ac mae`r personau â chyfrifoldeb yn weithwyr i`r Mudiad Meithrin. Maen nhw`n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Mae blaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi eu gweithredu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae`r adroddiad hunanarfarnu a gynhyrchwyd yn ddiweddar yn nodi cryfderau`r lleoliad yn seiliedig ar y tri chwestiwn allweddol a`r dangosyddion ansawdd sydd wedi eu rhestru yn y ddogfen arweiniad ar gyfer arolygu. Fodd bynnag, nid yw rhai o nodau a thargedau`r adroddiad hunanarfarnu yn cael eu cydnabod gan staff y Feithrinfa. Mae`r Feithrinfa yn adrodd bod yr holl staff wedi`u cynnwys wrth baratoi`r adroddiad hunanarfarnu, fodd bynnag, nid yw rhai o nodau ac amcanion yr adroddiad yn cael eu cydnabod gan staff y Feithrinfa. Mae cyfranogiad gwirioneddol y staff wrth baratoi`r adroddiad hunanarfarnu a`u gallu i`w ddefnyddio`n adeiladol yn aneglur.

Mae cynllun datblygu dwy flynedd (2010-2012) yn nodi`r camau i`w cymeryd o dan 3 targed ac yn cynnwys meini prawf llwydiant, adnoddau ac amserlen. Fodd bynnag, nid oes unrhyw awgrym o`r hyn sydd wedi digwydd neu sut mae`r deilliannau awgrymedig neu sut bydd y deilliannau yn cael eu harfarnu neu eu cwblhau. Nid yw`r hunanarfarnu wedi blaenoriaethu materion i`w gwella ac nid oes unrhyw awgrym bod barn rhieni /gofalwyr wedi`i ystyried.

Fodd bynnag, mae`r ddarpariaeth ar gyfer y plant 3 oed wedi cael ei datblygu, yn bennaf drwy ymdrechion y prif arweinydd. Mae hyn wedi golygu trefniant o weithio`n agos â staff yr awdurdod lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r rhieni yn gefnogol o`r lleoliad ac mae yna rhieni sy`n defnyddio`r lleoliad oherwydd ei fod yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae`r rhieni yn ymddiried yn y lleoliad, yn gwybod bod eu plant yn cael gofal da a`u bod yn gallu mynd at y staff ar unrhyw adeg. Caiff y rhieni eu hysbysu`n dda am bob agwedd o waith y lleoliad. Mae trefniadau da ar waith i drosglwyddo`r plant i`r cam nesaf yn eu haddysg. Mae staff cefnogi`r Awdurdod Lleol wedi rhoi cefnogaeth weithredol i`r lleoliad sydd wedi bod yn fuddiol. Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n dda gyda`i gilydd ac yn cefnogi eu gilydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad adnoddau da ac yn amgylchedd deniadol ar gyfer y plant. Nodwedd da a nodedig yw`r ffordd mae`r amgylchedd tu allan wedi`i ddatblygu i gefnogi dysgu`r plant. Mae`n darparu gweithgareddau sy`n diddori a chymell y plant; caiff ei ddefnyddio`n dda ac yn caniatáu`r plant i gael dewis o weithgareddau. Mae`n datblygu medrau`r plant ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau meddwl.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael ac mae`r staff a`r plant yn gweithio gyda`i gilydd yn hapus. Mae`r staff yn parchu`r plant ac fel canlyniad yn cael eu parchu hefyd. Mae`r plant yn teimlo`n ddiogel yn y lleoliad ac yn ddigon hyderus i gymryd rhan ymhob un o`r gweithgareddau.

Drwyddi draw, gwna`r plant gynnydd da gan gyflawni`n dda ac ar hyn bryd mae hyn yn cynrychioli gwerth gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae pob plentyn yn mwynhau eu hamser yn y Feithrinfa. Maen nhw`n dangos eu brwdfrydedd wrth ddod i`r lleoliad ac yn cymryd rhan yn gyflym yn y gweithgareddau sydd wedi eu gosod ar eu cyfer. Mae`r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn dangos hunan hyder.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)